Gorau dysg, cyd-ddysgu

Bydd BAROD
Bydd DDEWR
Bydd DDIOGEL
Bydd WYCH

Polisi E-ddiogelwch plant

# Cadw'n ddiogel ar lein




## Beth yw E-ddiogelwch?

- Mae E-Ddiogelwch yn golygu diogelwch electronig.
- Mae E-Ddiogelwch yn bwysig oherwydd ei fod yn ein helpu i gadw'n ddiogel a mwynhau bod ar-lein.

## Pam mae'r we yn dda?

- Gallwch ei ddefnyddio i ddysgu llawer o bethau.
- Gallwch gael llawer o hwyl yn gwylio fideos a chwarae gemau.
- Gall helpu gyda'n gwaith ysgol.
- Gallwch gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu.

## Pam mae angen polisi E-Ddiogelwch?

- I'n cadw'n ddiogel ar y We yn yr ysgol ac allan
- I wneud yn siŵr ein bod ni'n gwybod beth i'w wneud pan fydd rhywbeth rhyfedd yn digwydd neu pan fyddwn ni'n poeni.

## Os yw pobl ar-lein yn angharedig neu'n fy mhoeni: Beth ddylwn i ei wneud?

- Dywedwch wrth oedolyn rydych yn ymddiried ynddo ar unwaith. Rhowch wybod am unrhyw beth sy'n eich poeni.
- Peidiwch a phoeni yn dawel.
- Anwybyddwch y person.
- Blocio a dileu'r person ar ôl dweud wrth oedolyn dibynadwy - Cadwch yr holl negeseuon ar gyfer tystiolaeth.

## Beth ddylwn i ddim ei wneud?

- Peidiwch â chadw pryderon i chi'ch hun.
- Peidiwch â bod yn annheg neu'n gas yn ôl.
- Ceisiwch beidio â mynd yn ddig nac yn cynhyrfu.
- Peidiwch â dileu negeseuon.


## Pwy allaf siarad gyda?

Gallwch siarad ag unrhyw oedolyn yn yr ysgol:

- Mrs Hallam neu Miss Williams
- Miss Davies – yn gyfrifol am e-ddiogelwch.
- Athrawon
- Cynorthwywyr
- Miss Jenkins yn y swyddfa
- Staff clwb brecwast a cinio.
- PC Diana Boyt (Heddwas ysgolion).
- Gallwch hefyd siarad gyda rhiant neu oedolyn adref.

## Pam gall y we fod yn beryglus?

- Bwlio seibar —negeseuon a sylwadau cas, rhegi a geiriau angharedig. Nid yw pawb ar y we yn garedig.
- Perygl Dieithr— Gall pobl ar y rhyngrwyd esgus eu bod yn rhywun arall. Dim ond os ydym yn eu hadnabod mewn bywyd go iawn y dylem siarad â phobl ar-lein.
- Iaith anweddus —Weithiau pan fyddwn ar-lein, gallwn weld neu glywed geiriau rhegi a allai ein cynhyrfu.
- Cynnwys Ar-lein - nid yw'r holl ddeunydd ar-lein yn addas i blant i edrych arno ac mae yna cyfyngau oedran ar gyfer hyn.
- Firysau'n gyfrifiadurol – weithiau bydd pobl yn gofyn i chi glicio ar rywbeth a allai roi firws i'ch dyfais.
- Gallai pobl ofyn am wybodaeth bersonol, sy'n beryglus.
- Y gwir – weithiau mae pobl yn rhoi pethau ar y rhyngrwyd sy'n ffug neu'n anghywir.




## Sut mae pobl yn mynd ar y we?

- Cyfrifiadur cluniadur neu Chromebook.
- Ipad / tabled
- Ffôn
- Peirianau gêm (Playstation, Xbox, Switch)
- Teledu
- Smart Watches
- Alexa / Google Dot ayyb

## Sut ydym yn eich cadw yn ddiogel?

- Rydym yn gweithio gyda thîm TGCh y cyngor i gadw pawb yn ddiogel.
- Mae gennym feddalwedd sy'n cadw firysau i ffwrdd
- Mae gennym hidlwyr we a 'Safe Search' ar Google i atal disgyblion rhag gweld cynnwys amhriodol
- Rydym yn cadw mynediad at i-Pads a Gliniaduron yn ddiogel
- Rydym yn cadw ein rhwydwaith a'n mynediad Wi-Fi yn ddiogel
- Mae gan yr holl staff hyfforddiant i helpu i gadw plant yn ddiogel ar y we.
- Rydym yn cymryd camau os oes problem e-ddiogelwch.
- Rydym yn gwneud rhieni yn ymwybodol o gyngor diogelwch ar y we.
- Rydym yn siarad â rhieni os oes problem e-ddiogelwch




Cafodd y polisi hyn ei ddatblygu gan y Dewiniaid Digidol a'r Cyngor Lleisiau Lles.